**ARCHWILIO CYFRIFON 2025/2026**

Dyma RYBUDD, yn unol ag Adrannau 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Rheoliadau Cyfriron Ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd):

**ARCHWILIO CYFRIFON:**

(I) Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2025/2026
(II) Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2025/2026
(III) Cydbwyllgor Amlosgfa Llwydcoed ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2025/2026

1. Rhwng 27 Gorffennaf 2026 a 21 Awst 2026 (yn gynhwysol) rhwng 9.00am a 5.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener caiff unrhyw etholwr lleol archwilio a gwneud copïau o gyfrifon y cyrff a enwir uchod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 a holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau yn ymwneud â hwy.

2. Mae'r dogfennau yma ar gael i'w harchwilio yn Adnoddau Corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Tŷ Oldway, Porth, CF39 9ST.

3. Er mwyn ein galluogi ni i wneud trefniadau priodol ar gyfer arolygu, gofynnwn i etholwyr wneud apwyntiad trwy e-bost i GwasanaethauiGwsmeriaid@rctcbc.gov.uk, dros y ffôn ar 01443 570033 neu drwy ysgrifennu at Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran – Adnoddau Corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Tŷ Oldway, Porth, CF39 9ST.

4. Ar neu ar ôl 24 Awst 2026, hyd nes cwblhau'r archwiliad, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhoi cyfle i unrhyw etholwr llywodraeth leol, neu ei gynrychiolydd, yn yr ardal y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hi, i'w holi am y cyfrifon. Bydd hawl i unrhyw etholwr o'r fath, neu ei gynrychiolydd, fynychu gerbron yr Archwilydd Cyffredinol i wneud unrhyw wrthwynebiad i'r cyfrifon.

5. Gellir cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol trwy Alice King yn Archwilio Cymru, 1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd CF10 4BZ neu drwy e-bost: Alice.King@audit.wales.

6. Yn gyntaf rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o wrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol trwy Alice King yn Archwilio Cymru, 1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd CF10 4BZ neu drwy e-bost: Alice.King@audit.wales. Rhaid anfon copi o'r rhybudd ysgrifenedig at Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – i'r cyfeiriad sydd wedi'i nodi isod.

Dyddiad: 13 Gorffennaf 2026
P Mee
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Llys Cadwyn 2, Pontypridd, CF37 4TH.